Mae Brechu yn achub bywydau
Vaccination saves lives

# Brechlyn Ffliw

## Pecyn Cymorth Cyfathrebu

## I feithrinfeydd sy'n gofalu am blant 2 a 3 oed



GIG CYMRU NHS WALES
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

# Cynnwys

03 Y BRECHLYN FFLIW

04 SUT Y GALLWCH HELPU

05 NEGESEUON

06 POSTERI A THAFLENNI

07 ASEDAU DIGIDOL

08 DYWEDWCH WRTHYM BETH A WNAETHOCH

09 CADWCH MEWN CYSYLLTIAD

# Y Brechlyn Ffliw

**Brechu rhag y ffliw yw un o'r ffyrdd gorau o amddiffyn plant yn erbyn dal a lledaenu'r ffliw.**

Caiff y brechlyn ffliw ei gynnig i blant dwy a thair oed, ac i blant oedran ysgol hyd at Flwyddyn 11*.

Bydd y rhan fwyaf o blant a phobl ifanc yn cael eu brechlyn ar ffurf chwistrell drwynol gyflym a di-boen, lle y caiff tarth mân ei chwistrellu i fyny'r trwyn o flaen pob ffroen.

Gall plant a phobl ifanc na allant gael y chwistrell drwynol, neu sy'n well ganddynt frechlyn heb gelatin, gael y brechlyn ffliw ar ffurf pigiad yn lle hynny.

Gall y ffliw ledaenu'n gyflym drwy feithrinfeydd ac achosi salwch difrifol mewn rhai plant. Mae'r brechlyn ffliw am ddim yn lleihau'r risg honno.

**Rhagor o wybodaeth: icc.gig.cymru/brechlyn-ffliw**

*** Y plant sy'n gymwys yw'r rhai sydd yn 2 neu'n 3 oed ar 31 Awst 2026 (dyddiad geni rhwng 1 Medi 2022 a 31 Awst 2024).**

# Sut y gallwch helpu

## Pedair ffordd y gallwch gefnogi'r ymgyrch:

- ✓ Rhannu negeseuon â rhieni drwy e-bost neu neges destun
- ✓ Dangos posteri a thaflenni mewn derbynfeydd
- ✓ Rhannu deunyddiau ar gyfryngau cymdeithasol neu apiau meithrinfeydd
- ✓ Trafod brechu rhag y ffliw gyda rhieni

# Negeseuon

## Defnyddiwch y negeseuon parod isod i annog brechu rhag y ffliw ymhlith eich cynulleidfaoedd.

**CYLCHLYTHYR**

### Copi a awgrymir ar gyfer cylchlythyr

Wrth i dymor y ffliw agosáu, rydym am sicrhau bod gan bob teulu y wybodaeth sydd ei hangen arnynt i helpu i ddiogelu iechyd eu plant. Gall y ffliw ledaenu'n gyflym mewn amgylchedd meithrinfa a gall achosi salwch difrifol ymhlith plant ifanc.

Yr hydref hwn, caiff pob plentyn 2 a 3 oed ar 31 Awst 2026 gynnig brechlyn ffliw chwistrell drwynol cyflym ac am ddim.

Mae'r brechlyn ffliw wedi cael ei ddefnyddio'n ddiogel ers degawdau, a chafodd mwy na 25,000 o blant 2 a 3 oed yng Nghymru eu brechu drwy chwistrell drwynol ffliw y llynedd.

Mae'r brechlyn ffliw chwistrell drwynol yn ddiogel ac yn ddi-boen, a chaiff y rhan fwyaf o blant eu hamddiffyn o fewn 14 diwrnod. Gall plant na allant gael y chwistrell drwynol, neu sy'n well ganddynt frechlyn heb gelatin, gael y brechlyn ffliw ar ffurf pigiad yn lle hynny.

Sicrhewch fod eich plentyn yn cael ei frechu rhag y ffliw er mwyn helpu i'w gadw'n iach y gaeaf hwn.

Rhagor o wybodaeth: icc.gig.cymru/brechlyn-ffliw

**NEGES DESTUN NEU WHATSAPP**

### Copi a awgrymir ar gyfer neges destun neu WhatsApp

Gall ffliw fod yn ddifrifol i blant ifanc.
Mae'r brechlyn ffliw chwistrell drwynol yn ddiogel ac yn ddi-boen, ac mae'n helpu i amddiffyn miloedd o blant yng Nghymru bob blwyddyn.
Sicrhewch fod eich plentyn yn cael ei frechu rhag y ffliw er mwyn helpu i'w gadw'n iach y gaeaf hwn.

Rhagor o wybodaeth: icc.gig.cymru/brechlyn-ffliw

### Canllaw Negeseuon Llawn

Lawrlwythwch y negeseuon allweddol ar gyfer rhieni plant 2–3 oed a'u rhannu yn y ffordd rydych yn gwybod sy'n gweithio orau gyda'ch cymuned.

Lawrlwytho'r Canllaw Negeseuon

Gall y negeseuon hyn gefnogi eich sgyrsiau â rhieni.

# Posteri a Thaflenni

POSTERI




## Posteri

Gallwch gael posteri wedi'u hargraffu a'u danfon i'ch cyfeiriad, neu eu lawrlwytho a'u hargraffu eich hun.

**Meintiau sydd ar gael:**
A3

Archebu posteri

Lawrlwytho Posteri

TAFLENNI




## Taflenni

Hyrwyddwch y brechlyn ffliw drwy arddangos taflenni mewn derbynfeydd ac ardaloedd staff.

**Wedi'u hargraffu a'u danfon i'ch cyfeiriad.**

Archebu Taflenni

# Asedau Digidol

Lawrlwythwch graffigwaith parod a defnyddiwch ein testun a awgrymir i hyrwyddo'r brechlyn ffliw ar eich cyfryngau cymdeithasol a'ch apiau i rieni.

**DELWEDDAU A FIDEOS**




### Neges a Awgrymir ar gyfer y Cyfryngau Cymdeithasol

Yn flynyddol, caiff mwy na 25,000 o blant 2 a 3 oed yng Nghymru eu hamddiffyn rhag y ffliw drwy'r brechlyn chwistrell drwynol. Mae'r chwistrell drwynol yn ddiogel, yn ddi-boen ac yn gyflym.

Gall y ffliw fod yn ddifrifol i blant ifanc, ond mae'r brechlyn ffliw yn helpu i leihau'r risg o salwch difrifol.

Rhagor o wybodaeth:
icc.gig.cymru/brechlyn-ffliw

Lawrlwytho'r Asedau Digidol

### Y Ffliw i Blant 2 a 3 Oed: Cwestiynau ac atebion

A oes gennych gwestiynau am y brechlyn ffliw i blant 2 a 3 oed? Gwyliwch ein fideo holi ac ateb byr, lle mae gweithiwr gofal iechyd proffesiynol yn trafod beth i'w ddisgwyl a manteision brechu.




Gwylio'r Fideo

# Dywedwch Wrthym Beth a Wnaethoch

Byddem wrth ein bodd yn clywed sut y gwnaethoch gefnogi'r ymgyrch frechu rhag y ffliw y gaeaf hwn – a sut yr ymatebodd eich cynulleidfa.

Bydd eich adborth yn ein helpu i ddeall effaith yr ymgyrch yn well, beth y gallwn ei wella a sut y gallwn weithio'n well gyda sefydliadau fel eich un chi yn y dyfodol.

P'un a wnaethoch rannu neges ar gyfryngau cymdeithasol, gosod poster neu siarad yn uniongyrchol â staff neu ddefnyddwyr gwasanaethau, mae pob gweithred yn cyfri – ac rydym am glywed beth a wnaethoch.

**Llenwch ein ffurflen adborth fer**

Dim ond pum munud y mae'n ei gymryd i'w llenwi.

# Cadwch mewn Cysylltiad

**Diolch am ein helpu i amddiffyn pobl yng Nghymru rhag y ffliw.**

Byddem wrth ein bodd yn clywed gennych. I gael rhagor o wybodaeth am ein gwaith, neu i drafod cyfleoedd i gydweithio, cysylltwch â:

**communications.team@wales.nhs.uk.**